OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 2953

# Rheoliadau Addysg (Cyfweliad Ailintegreiddio) (Cymru) 2010

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyfweliad Ailintegreiddio) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 5 Ionawr 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran ysgolion a gynhelir yng Nghymru(**1**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i waharddiad dros dro a osodwyd ar 5 Ionawr 2011 neu ar ôl hynny.

(**1**) Mae adran 111 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn diffinio "*maintained school*" at ddibenion y Rheoliadau hyn.